*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

## GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt**:** Jess Daniel - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau (07385401877)

Bydd cyfarfod rhithwir o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal ar **DYDD IAU, 22AIN GORFFENNAF, 2021** am **3.00 PM.**

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 20 GORFFENNAF 2021, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

## AGENDA — Tudalennau

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**
1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2021.

**5 - 8**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**5. CAIS RHIF: 20/1182/16**

Datblygu pum annedd ar wahân (Cymeradwyo manylion y materion wedi'u cadw'n ôl yn dilyn rhoi caniatâd amlinellol i gais rhif 14/1308/13, a gafodd ei ymestyn gan gais rhif 19/0334/15) (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 23/03/2021).
**Hen Safle Llyfrgell Cwm-bach, Rhes Morgan, Cwm-bach, Aberdâr**

**9 - 22**

**<u>CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU GWRTHOD GAN Y CYFARWYDDWR MATERION FFYNIANT A DATBLYGU</u>**

**6. CAIS RHIF: 21/0717/10**

Cynllun arfaethedig i ddymchwel rhan o'r estyniad presennol ac adeiladu estyniad llawr gwaelod y tu cefn i'r siop ac estyniad llawr cyntaf ar gyfer y fflat.
**194 Stryd Fawr, Treorci**

**23 - 30**

**ARCHWILIAD O'R SAFLE**

**7. CAIS RHIF: 20/1337/10**

Adeiladu 3 annedd ar wahân. Cadw'r annedd bresennol a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 15/02/2021).
**BIRCHWOOD, FFORDD LLWYDCOED, LLWYDCOED, ABERDÂR, CF44 0UL**

**31 - 56**

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**8. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 14/06/2021 – 09/07/2021

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd
Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.

**57 - 86**

**9. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**

**Cylchrediad:-**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd W Lewis, Y Cynghorydd J Williams,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd D Williams ac Y Cynghorydd S Powderhill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Pennaeth Cynllunio
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Uwch Beiriannydd